Coetir Mynydd

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Hydref 2006

e-bost: coetirmynydd@aol.com
www.coetirmynydd.co.uk

Dyma drydydd adroddiad blynyddol Coetir Mynydd ac mae'n ymwneud â'r cyfnod o 26 Tachwedd 2005 hyd 19 Hydref 2006. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd busnes y cwmni ei redeg gan y Bwrdd, sef: Bryan Dickinson, Einir Frodsham, Mark Goddard, Gwen Griffiths, Dave Siviter, Sharon Sweeny, Bryn Williams, Jenny Wong a Mike Yates. Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith, sef ar 20 Rhagfyr 2005, 14 Chwefror 2006, 18 Ebrill 2006 ac 8 Gorffennaf 2006. Cedwir cofnodion y cyfarfodydd hyn gan Mark yn Hirdir Uchaf ac maent ar gael i'r aelodau eu harchwilio.

Dros y flwyddyn, llwyddodd y cwmni i gael arian ac i ymgymryd â'r gweithgareddau fel a ddisgrifir isod.

## Parc yr Ynys

'Roedd dwy dasg wedi'u rhaglennu ar gyfer Parc yr Ynys yn 2005-6. Gyda nawdd gan First Hydro mae Mike Bithell wedi adeiladu a gosod mainc syml yn ddiweddar, y lluniwyd rhan ohoni allan o foncyff derw o goeden oedd wedi disgyn ym Mharc yr Ocar. Ein dymuniad oedd defnyddio cyfran o'r arian Cydcoed i atgyweirio'r ffens anifeiliaid hyd ochr y ffordd. Yn anffodus, 'roedd hyn yn ddrutach nag a ragwelwyd ac 'rydym mewn trafodaethau gyda Cydcoed ac adeiladwr ffensys er mwyn gweld beth sydd ei angen i wneud yr atgyweiriadau angenrheidiol. Unwaith bydd hyn wedi'i wneud, 'rydym yn bwriadu ail-sefydlu'r tir yma fel porfa er mwyn ei gadw'n agored.

## Parc yr Ocar

Adeiladwyd tri hysbysfwrdd pren a gosodwyd dau ohonynt ger y mynedfeydd uchaf i'r coed. Bwriedir gosod y trydydd unwaith y bydd y gwaith o godi waliau ar ochr Felin Fawr o'r coed wedi'i gwblhau.

Mae'r gwaith o adfer y waliau wedi parhau dros y flwyddyn ac mae bron â'i gwblhau bellach. Mae hyn wedi bod yn dipyn o dasg ac 'roedd angen dod â llawer mwy o gerrig ar y safle nag a ragwelwyd gennym ar y cychwyn. Golygodd hyn y bu'n rhaid i Hefin ddefnyddio berfa moduraidd i symud cerrig ar hyd y llwybr isaf ac mae hyn wedi tarfu mwy ar y safle nag y byddem wedi ddymuno. Fodd bynnag, dylai'r waliau bara am gan mlynedd neu fwy ac mae'r planhigion eisoes yn dechrau adennill eu plwyf a dylai'r lle edrych fel ag yr oedd erbyn yr hydref nesaf.

## Argae Coed y Parc

Ni chafwyd ymateb ffafriol iawn i'r arbrawf o osod darn o ffens diogelwch ar ben y wal wrth ochr yr argae felly 'rydym yn gweithio ar strategaeth wahanol ar hyn o bryd. Y bwriad yn awr yw gadael y ffens llwyd a'r giat yn eu lle a symud y llwybr sy'n ymestyn hanner ffordd ar draws y gorlifan sy'n aml yn rwystr i lif y dŵr. Byddwn yn adolygu diogelwch a mynediad i'r argae wrth gyflawni atgyweiriadau eraill i'r argae a'r wal.

Hyd yma, ni osodwyd rhybuddion pren cryfach a mwy cyfeillgar yn lle'r ddau rybudd a gafodd eu fandaleiddio y llynedd, ac mae angen gwneud hynny.

Cafwyd cymorth gan First Hydro i brynu dyfais monitro lefel dŵr a osodwyd ar yr argae gan Bryn ym mis Mai. Casglwyd data dros yr haf a pharatowyd graffau o'r pŵer sydd ar gael yn ôl dyfnder y dŵr. Bydd y gwaith monitro yn parhau drwy'r hydref a'r gaeaf fel bod modd creu cofnodion cywir o'r llif sydd ar gael.

Mae canlyniadau'r haf yn dangos y byddai'r dyfnder o 9m ar yr argae yn cynnal tyrbin 10KW. 'Roedd y trafodaethau gyda Cymad yn sôn am gael hydro bychan 100KW, sef y lleiaf y mae modd iddynt gynorthwyo i'w ariannu – ond byddai angen dyfnder o 90m ar gyfer hyn ac felly nid yw'n ymarferol.

Byddai cyfarpar 10KW yn costio tua £20k i'w osod a byddai'n denu inwm o tua £3.5k y flwyddyn. Bwriadwn barhau i edrych ar yr opsiynau o ran ariannu datblygiad o'r fath. Mae arian ar gyfer hyd at 50% o gost y prosiect ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Llwyddodd Coetir Mynydd i gael grant gan yr Ardoll Agregau tuag at gostau atgyweirio'r argae. Yn anffodus, 'roedd yna amod ynghlwm â hyn, sef y byddai MacAlpines yn darparu arian parod cyfatebol o 50%. 'Roedd hyn yn afresymol gan nad oedd MacAlpines yn ymwybodol o'n cais hyd yn oed ac ni fu'n bosibl manteisio ar y grant hwn. Mae hyn yn ymddangos yn afresymol iawn a byddwn yn codi hyn gyda'r Ardoll Agregau.

## Gweithgareddau Ieuenctid

'Roeddem wedi bwriadu trefnu digwyddiadau ar gyfer ieuenctid yn Sioe Dyffryn Ogwen ac yng Ngŵyl Haf Mynydd. Yn anffodus, ni ddigwyddodd yr un o'r ddau gan nad oedd yna arweinwyr ar

gael.  Fodd bynnag, gobeithiwn fedru cyfrannu at weithgareddau ieuenctid yn y flwyddyn i ddod.

## Gwobr YDCW

Fel cydnabyddiaeth o’r gwaith ‘rydym wedi ei gyflawni yn diogelu ac yn rheoli’r argae a’r coetiroedd, pleser o’r mwyaf oedd derbyn Gwobr Cymru Wledig gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) ar ddydd Sul, 3 Medi, 2006. Ymunodd aelodau o YDCW â rhai ohonom ar daith drwy’r coed y pnawn hwnnw ac ‘roeddent yn edmygu’r waliau newydd yn fawr iawn.

## Parc y Bwlch

Hyd fis Mawrth ‘roeddem mewn cysylltiad â’r Comisiwn Coedwigaeth ynglŷn â’r cynlluniau Dyluniad ar gyfer dwy goedwig y Comisiwn yn Nyffryn Ogwen.  Y wybodaeth ddiweddaraf oedd gennym oedd bod y cynllun ar gyfer Braich Melyn wedi’i gwblhau ac yn barod ar gyfer ymgynghoriad.  Gofynasom i rywun ddod i’n gweld i egluro’r cynllun fel y gallem gyflwyno sylwadau, yn arbennig mewn perthynas â rhan uchaf y coed a’i ffin uchaf sy’n weladwy o’r rhan helaethaf o Mynydd.  Dywedodd Kim hefyd y bwriedid ail-blannu’r ardal a gliriwyd o goed yng nghanol Parc y Bwlch yn gynnar yn 2007 ac y byddai yna gyfle i ni wneud awgrymiadau o ran y rhywogaethau a dyluniad yr ail-blannu.  Yn anffodus, gadawodd Kim Swyddfa Ardal Llanrwst yn gynnar yn 2006 ac nid ydym wedi clywed gan y Comisiwn Coedwigaeth ers hynny.  Gobeithiwn gael cyfarfod gydag Ewan Stevens, y Rheolwr Ardal newydd, yn y dyfodol agos i glywed y diweddaraf.








